

Anghenion anifeiliaid fferm – atebion (a)

Bwyd (Pob un)

Mae angen bwydo pob anifail fferm â diet iachus sy'n briodol i'w rywogaeth, ac mae angen rhoi digon ohono i gadw'r anifeiliaid yn iach ac i fodloni eu hanghenion maethol.

Dŵr glân (Pob un)

Mae angen i bob anifail fferm allu cael cyflenwad digonol a pharhaus o ddŵr yfed glân a ffres bob dydd.

Lle cyfforddus i orffwys (Pob un)

Mae angen i bob anifail fferm gael amgylchedd addas i fyw ynddo sy'n eu hamddiffyn rhag anghysur ac yn rhoi lle cysurus iddynt orffwys ynddo. Er enghraifft, dylai gwartheg godro gael digon o wellt neu naddion pren neu fat gwartheg meddal i orwedd arno.

Pethau diddorol i'w gwneud/pethau i chwarae â nhw (Pob un)

Mae angen i bob anifail fferm gael amgylchedd diddorol i'w cadw'n brysur, rhwystro diflastod a chaniatáu iddynt ymddwyn mewn ffordd naturiol.

- Dylai hwyaid allu cael at ddŵr er mwyn trwsio eu plu ac ymdrochi. Gall byrnau gwellt hefyd helpu i annog gweithgaredd.
- Dylai gwartheg allu defnyddio llecyn ymarfer sydd wedi ei reoli'n dda. Mae rhai ffermwyr yn rhoi brwsys (wedi eu gosod ar waliau) i rwbio yn eu herbyn.
- Pan fydd y borfa'n tyfu, os yw'r hinsawdd yn addas, dylai defaid allu mynd allan i bori, sy'n caniatáu iddynt ymddwyn yn naturiol.
- Mae angen i foch gael gwellt neu ddeunydd addas arall, i ganiatáu iddynt dyrchu, pawennu, chwilota a'u cegau a chnoi.
- Mae angen clwydi ar ieir, a gwasarn addas i ganiatáu iddynt lwchdrochi, pigo a chrafu'r llawr.

Amddiffyniad rhag haul poeth/tywydd gwael (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael ei gadw mewn amgylchedd addas a dylai lloches fod ar gael iddynt i'w gwarchod rhag tywydd gwael.

Er enghraifft, i osgoi llosg haul, dylai moch buarth allu cysgodi a defnyddio ardaloedd ymdrybaeddu a reolir yn dda.

Mae angen cysgod/lloches ar ieir buarth i'w gwarchod rhag glaw neu haul poeth.

Peidio â bod yn rhy boeth neu oer (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael ei gadw mewn tymheredd addas.

Er enghraifft, dylai defaid sy'n cael eu cneifio yn ystod y gaeaf gael eu cadw mewn cytiau heb ddrafft am ddau fis ar ôl eu cneifio i osgoi straen oherwydd oerfel.

Rhywun i ofalu amdanynt (Pob un)

Mae angen i bob anifail fferm gael archwiliadau rheolaidd gan ofalwr stoc medrus i wneud yn siŵr eu bod yn iawn.

Anghenion anifeiliaid fferm – atebion (b)

Milfeddyg (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael ei gadw rhag poen, anaf neu glefyd, naill ai trwy eu hatal neu trwy ddiagnosis a thriniaeth gyflym.

Cartref glân (Pob un)

Mae hylendid yn bwysig er mwyn rhwystro haint a lleihau risg clefydau.

Digon o le (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael digon o le i symud o gwmpas, ymarfer, ymddwyn yn naturiol ac osgoi anifeiliaid eraill os dymunant wneud hynny.

Ffrindiau/cwmni (Pob un)

Byddai llawer o anifeiliaid fferm yn byw'n naturiol mewn haid neu yrr ac mae cael eu cadw ar eu pennau eu hunain yn achosi straen iddynt. Oherwydd hynny, mae angen iddynt gael eu cadw gydag anifeiliaid eraill o'r un math.

Lle i wneud nyth (leir a moch)

Mae angen i ieir gael lle addas a deunydd addas lle y gallant ddodwy eu hwyau.

Mae greddf gref mewn hychod (moch benywaidd) beichiog i wneud nyth ychydig ddyddiau cyn rhoi genedigaeth, a dylid rhoi deunyddiau iddynt (e.e. gwellt) i'w galluogi i wneud hynny.

Clwydi (leir yn unig)

Bydd ieir sy'n byw'n rhydd yn gorffwys ar glwydi gyda'r nos (yn clwydo), a byddant yn defnyddio'r clwydi yn ystod y dydd hefyd i gael llonydd gan ieir eraill, ac felly mae darparu clwydi neu lwyfannau eraill yn eu galluogi i ymddwyn yn naturiol.

Peidio â bod ag ofn (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael ei gadw rhag ofn a gofid.

Dim sŵn uchel (Pob un)

Gall sŵn uchel ddychryn anifeiliaid fferm.

Peidio â bod mewn poen (Pob un)

Trafod yn bwyllog (Pob un)

Dylai pob anifail fferm gael ei drafod yn ofalus gan rywun sydd wedi ei hyfforddi i drafod anifeiliaid, rhag iddynt gael eu dychryn, eu gofidio neu eu hanafu.

Cyfleusterau ymdrochi (Hwyaid yn unig)

Mae angen i hwyaid allu cael at ddŵr er mwyn trwsio eu plu ac ymdrochi.

Y golau cywir (Pob un)

Mae angen cyfnodau o oleuni (o'r disgleirdeb cywir) a chyfnod tywyll addas ar bob anifail fferm, er mwyn iddynt allu ymddwyn fel y byddent yn naturiol mewn golau dydd, a gorffwys yn naturiol.